Gorfodol ond Heb ei Ddiffinio: Pam mae angen Hawl Genedlaethol Glir ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) yng Nghymru

Lucy Huskinson, Prifysgol Bangor
Gareth Evans-Jones, Prifysgol Bangor
Joshua Andrews, Prifysgol Bangor
Rachel Healand-Sloan, Prifysgol Bangor

CRYNODEB

Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) yn gyfreithiol orfodol i bob dysgwr rhwng 3 a 16 oed o dan y Cwricwlwm i Gymru, ac eto mae diffyg hawl genedlaethol ddiffiniedig o safbwynt amser ar ei gyfer a'i gyflwyniad yn creu paradocs tyngedfennol. Mae'r erthygl hon yn archwilio sut y mae amwyster o ran canllawiau gweithredol yn tanseilio tegwch, cynnydd, a dibenion dinesig, yn enwedig ar ôl dileu'r cwrs TGAU Astudiaethau Crefyddol byr. Gan ddefnyddio fframweithiau statudol, cyd-destun hanesyddol, ac ymchwil y sector, mae'r dadansoddiad yn nodi gwendidau systemig: darpariaeth dameidiog, erydiad arbenigedd pwnc, a dallbwyntiau o ran atebolrwydd. Mae'r erthygl wedi ei threfnu'n bedwar cam. Yn gyntaf, mae'n olrhain esblygiad a sylfaen statudol CGM; yn ail, mae'n archwilio sut y mae amwyster yn cael ei amlygu mewn modelau cyflwyno ac yn effeithio ar degwch; yn drydydd, mae'n cymharu'r trefniadau cyfredol â fframweithiau blaenorol ac yn ystyried risgiau ym Mlynyddoedd 10–11; ac yn bedwerydd, mae'n gwerthuso integreiddiad trawsgwricwlaidd a'i oblygiadau ar gyfer llythrennedd dinesig. Mae'r erthygl yn cloi drwy gynnig pecyn cytbwys o ddiwygiadau – gan gynnwys hawl isafswm amser cenedlaethol, arolygu mwy cadarn, canllawiau pontio ar gyfer Blynyddoedd 10–11, a buddsoddiad mewn dysgu proffesiynol – er mwyn sicrhau bod 'gorfodol' yn gyfystyr â dysgu ystyrlon a theg i bob dysgwr yng Nghymru.

https://doi.org/10.16922/wje.853cym

Geiriau Allweddol: cwricwlwm i gymru, crefydd, gwerthoedd a moeseg (CGM), hawl statudol, amser y cwricwlwm, tegwch a chynnydd ym maes addysg, integreiddio trawsgwricwlaidd.

1. Cyflwyniad: Yr Addewid a'r Broblem

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn ddiwygiad o bwys, a'i nod yw meithrin dysgwyr uchelgeisiol, galluog a dinasyddion moesegol a gwybodus. Mae'n fenter flaenllaw wedi'i strwythuro o amgylch pedwar diben a chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh). O fewn Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau, mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) wedi'i dynodi'n elfen orfodol ar gyfer pob dysgwr 3–16 oed. Mae CGM wedi'i fframio i fod yn wrthrychol, yn feirniadol ac yn blwraliaethol, mae'n cwmpasu argyhoeddiadau athronyddol crefyddol ac anghrefyddol ac wedi'i sefydlu'n gadarn mewn statud a chanllawiau (Wareham, 2022; Barnes, 2025).

Mae'r statws gorfodol hwn yn arwydd o ymrwymiad blaengar i lythrennedd sy'n cynnig bydolygon ac ymgysylltu dinesig, gyda phosibiliadau cyfoethog ar gyfer dulliau cyfannol a chreadigol o ddarparu addysg sy'n canolbwyntio ar y dysgwr. Er mor glodwiw yw hyn, mae pensaernïaeth y polisi yn cynnwys diffyg nodedig: nid yw Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 na chanllawiau statudol yn rhagnodi dyraniad amser gofynnol yn y cwricwlwm ar gyfer CGM na model safonol o'i gyflwyno. Mae'n ofynnol i ysgolion gynllunio eu cwricwla eu hunain yn unol â'r canllawiau statudol, ac eto nid oes hawl wedi'i nodi o ran oriau nac amlder. O ganlyniad, mae'r cysyniad o 'gorfodol' wedi cael ei ddiffinio'n amwys. Mae profiadau dysgwyr yn amrywio'n eang erbyn hyn. Mae rhai ysgolion yn darparu gwersi CGM wythnosol a addysgir gan arbenigwyr; eraill yn integreiddio CGM ar draws pynciau'r Dyniaethau megis Hanes a Daearyddiaeth, yn ei ymwreiddio yn amser y tiwtor, neu'n bodloni'r gofyniad statudol trwy drefnu diwrnodau achlysurol oddi ar yr amserlen i ganolbwyntio ar bwnc penodol (Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol Cymru, 2024). Nid manylyn technegol yn unig yw'r amwyster hwn; mae'n dylanwadu'n uniongyrchol ar ddarpariaeth ac yn tanseilio tegwch addysgol a dibenion dinesig y Cwricwlwm i Gymru.

Mae'r un ddyletswydd gyfreithiol felly yn rhoi hawliau tra gwahanol i ddysgwyr. Er bod fframwaith arolygu cyfredol Estyn yn gwerthuso ansawdd y cwricwlwm, mae

diffyg disgwyliadau cenedlaethol o ran neilltuo amser i CGM yn gwneud gorfodi ystyrlon yn anodd (Estyn, 2023).

Daw'r tensiwn yn arbennig o nodelig ym Mlynyddoedd 10 ac 11. O dan y fframwaith blaenorol, roedd nifer fawr o ddysgwyr yn dewis astudio TGAU Astudiaethau Crefyddol (AC), yn aml drwy'r cwrs byr. Mae diwygiadau diweddar i gymwysterau wedi cyflwyno TGAU AC newydd, a gafodd ei addysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2025, ond heb yr opsiwn cwrs byr. Mae canllawiau CBAC yn cadarnhau nad oes gan Cymwysterau Cymru unrhyw gynlluniau i adfer y llwybr hwn ar hyn o bryd (CBAC, 2025). Mae dileu'r cwrs byr yn dileu mecanwaith allweddol a arferai angori amser ar gyfer astudiaethau ystyrlon yn y blynyddoedd hyn. Os yw'r term 'gorfodol' i warantu hawl deg, yna mae canllawiau cenedlaethol mwy cadarn a disgwyliadau clir y gellir eu monitro bellach yn hanfodol.

Mae'r erthygl hon yn mynd i'r afael â'r paradocs hwnnw a'i oblygiadau mewn deg adran sydd wedi'u rhannu yn bedwar llinyn thematig:

- **Adrannau 2–3:** Cyd-destun hanesyddol a statudol, a sut mae amwyster yn cael ei amlygu mewn modelau cyflwyno a bylchau o ran tegwch.
- **Adrannau 4–5:** Cymharu â fframweithiau blaenorol a'r pwynt tyngedfennol ym Mlynyddoedd 10–11 yn sgil dileu'r cwrs TGAU byr.
- **Adrannau 6–8:** Integreiddio trawsgwricwlaidd a pherygl gwanhau; goblygiadau dinesig hawl i wydnwch democrataidd; ac argymhellion ar gyfer diwygio y gellid eu gweithredu.
- **Adrannau 9–10:** Ymatebion i wrthwynebiadau, a chasgliad sy'n amlinellu sut y gall argymhellion 'gorfodol' fod yn ystyrlon i bob dysgwr yng Nghymru.

Mae'r erthygl yn cloi trwy gynnig diwygiadau sy'n sicrhau cydbwysedd rhwng ymreolaeth ac amddiffyniadau cenedlaethol, gan sicrhau bod 'gorfodol' yn gyfystyr â dysgu ystyrlon a theg i bob dysgwr yng Nghymru.

Mae'r dadansoddiad hwn yn defnyddio theori gwricwlaidd ehangach, yn enwedig gwaith ar wybodaeth, hawl a chyflawni cwricwlwm, sy'n pwysleisio bod mynediad at wybodaeth ddisgyblaethol yn dibynnu ar amlygiad cwricwlaidd parhaus yn hytrach na chynhwysiant enwol yn unig (Young, 2008; Young et al., 2014), gan gydnabod fod polisi cwricwlwm yn cael ei ddehongli'n anwastad ar draws cyd-destunau sefydliadol (Priestley, Biesta a Robinson, 2015).

Er bod y ddadl a ddatblygir yma yn gweithredu ar lefel systemau, mae'n bwysig cydnabod nad yw'r ddarpariaeth CGM yn unffurf ledled Cymru. Ceir amrywiad sylweddol rhwng cyfnodau cynradd ac uwchradd, lleoliadau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg, a rhwng ysgolion â gwedd grefyddol a rhai heb wedd grefyddol. Gall y gwahaniaethau hyn ddylanwadu ar yr amser yn y cwricwlwm, dull addysgegol, a blaenoriaeth y sefydliad. Fodd bynnag, nid yw'r erthygl hon yn ceisio cynnig disgrifiad wedi'i ddadgyfuno'n llwyr o'r amrywiadau hyn; yn hytrach, mae'n nodi mater strwythurol cyffredin – diffyg hawl ddiffiniedig – sy'n torri ar draws y cyd-destunau hyn. Felly, nodir yr angen am ddadansoddiad manwl sy'n sector benodol fel blaenoriaeth bwysig ar gyfer ymchwil empirig yn y dyfodol.

2.0. Ystyr Gorfodol yn y Gyfraith ac mewn Canllawiau Cyfredol

2.1. Esblygiad CGM yng Nghymru

Darpara'r adran hon grynodeb hanesyddol, nid disgrifiad cyflawn, er mwyn amlygu'r ffordd y mae trefniadau blaenorol o ran gorfodaeth, cydwybod, a rheolaeth o'r cwricwlwm yn parhau i lywio amwyster cyfredol yn y ddarpariaeth CGM.

Mae gan ddadleuon am orfodaeth a rhieni yn tynnu eu plant o wersi CGM yng Nghymru wreiddiau hanesyddol dwfn ym mholisi addysgol y bedwaredd ganrif ar bymtheg a gafodd ei llywio gan ddeddfwriaeth Lloegr a rhagfarn ddiwylliannol. Condemniodd adroddiadau arolygu addysg a ariannwyd gan y llywodraeth ym 1847 - sy'n adnabyddus fel y Llyfrau Gleision – yr iaith Gymraeg ac Anghydffurfiaeth fel achosion anwybodaeth, gan sbarduno argyfwng cenedlaethol drwy nodi addysg fel yr hyn a gynrychiolai hunaniaeth foesol ac ieithyddol Cymru (Williams, 1990). Yng nghanol ofnau ynghylch rheolaeth Anglicanaidd, cyflwynodd Deddf Addysg Elfennol 1870 ddwy egwyddor barhaus: y cymal Cowper-Temple a orfodai addysgu anenwadol a'r cymal cydwybod a oedd yn caniatáu i rieni dynnu eu plant o wersi penodol (Louden, 2004).

Mae'r darpariaethau hyn yn sicrhau cydbwysedd rhwng gorfodaeth a chydwybod, gan alluogi Anghydffurfwyr yng Nghymru i gyfranogi yn addysg y wladwriaeth heb ildio ymreolaeth. Atgyfnerthwyd y model hwn yn yr ugeinfed ganrif gan Ddeddfau 1902, 1944 a 1988, gan ymwreiddio penderfyniad lleol trwy Feysydd Llafur Cytunedig a Chynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAGau),

gan gynnal hawliau rhieni i dynnu eu plant o wersi hefyd. Erbyn diwedd y ganrif, roedd addysg grefyddol yng Nghymru yn orfodol i ysgolion ond yn ddewisol i ddisgyblion – cyfaddawd parhaus rhwng cynhwysiant dinesig, amrywiaeth, a chydwybod unigol sy'n parhau i lywio CGM hyd heddiw.

Fodd bynnag, caiff y newid cyfoes i CGM ei ddeall orau nid yn unig o fewn y trywydd hwn yng Nghymru, ond mewn perthynas â datblygiadau ehangach ledled Cymru a Lloegr hefyd; yn enwedig, adroddiad 2018 y Comisiwn ar Addysg Grefyddol (CoRE), 'Religion and Worldviews: The Way Forward', a gyflwynodd y syniad o lythrennedd bydolygon, gan ail-fframio'r pwnc fel hawl gyffredinol sy'n cwmpasu ffyrdd crefyddol ac anghrefyddol o ddeall y byd. Ar y sail hon, roedd yr adroddiad yn dadlau dros ddileu hawl rhieni i dynnu eu plant o wersi Addysg Grefyddol ac o blaid sefydlu hawl genedlaethol glir er mwyn sicrhau darpariaeth gyson (CoRE, 2018).

Er bod Cymru wedi dilyn ei llwybr deddfwriaethol ei hun, caiff y syniadau hy neu hadlewyrchu'n glir yn nyluniad CGM yn y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r pwyslais ar ymgysylltu beirniadol, gwrthrychol a phlwraliaethol ag ymrwymiadau athronyddol amrywiol, ynghyd â dileu'r hawl i rieni allu tynnu eu plant o wersi CGM, gan nodi newid cysyniadol tebyg o gyfarwyddyd cyffesol i ffurfiant dinesig a deallusol (Llywodraeth Cymru, 2021; Hwb, 2022b). Mae'r ddadl a gyflwynir yn yr erthygl hon dros linell sylfaen ddiffiniedig ar gyfer darpariaeth yn adleisio, yn yr un modd, bryder CoRE ei bod yn rhaid i hawl fod yn ystyrlon yn ymarferol yn hytrach na bod yn ffurfiol yn unig.

Gyda hyn, mae'r cyfryw ddatblygiadau yn cynrychioli parhad tueddiadau hirsefydlog yn y maes. Gellir olrhain symudiadau tuag at ffurfiau lluosol a beirniadol o Addysg Grefyddol o leiaf i Bapur Gwaith 36 y Cyngor Ysgolion (1971), a ail-ddychmygodd y pwnc fel disgyblaeth archwiliadol, aml-ffydd a oedd a wnelo â dealltwriaeth yn hytrach na throsglwyddo gwybodaeth (Copley, 2008). Ymwreiddiwyd y gogwydd hwn gan y degawdau dilynol drwy ddiwygiadau cytunedig i feysydd llafur ac i'r cwricwlwm, gan ehangu cwmpas y pwnc yn raddol i adlewyrchu amrywiaeth gymdeithasol ac athronyddol gynyddol.

Nid yw CGM felly yn cynrychioli rhwyg ond, yn hytrach, cyfuniad ac ymestyniad trywyddau hirsefydlog tuag at ffurfiau lluosol, beirniadol o addysg grefyddol. Yr hyn sy'n hynod ar yr union adeg hon yw nid y trywydd, ond y cyfuniad o uchelgais gysyniadol eglur a manyleb gymharol wan o ran hawl yn y cwricwlwm. Roedd setliadau hanesyddol cynharach yn sicrhau cydbwysedd rhwng mesurau diogelu—trwy feysydd llafur wedi'u cytuno yn lleol, normau darpariaeth cyffredin,

ac, yn ddiweddarach, strwythurau cymwysterau. Mewn cyferbyniad, mae'r fframwaith presennol yn dileu llawer o'r angorau hyn gan hefyd ddwysáu disgwyliadau dinesig ac addysgol y pwnc. Mae'r safbwynt hanesyddol hwn yn tanlinellu honiad canolog yr erthygl: nad yw'r amwyster ynghylch darpariaeth 'orfodol' yn ddamweiniol, ond yn hytrach ei fod yn adlewyrchu newid yn y ffordd y caiff hawl ei hun ei chysyniadoli a'i deddfu.

2.2. Sylfaen statudol

Mae adran 71 Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn darparu'r sail statudol ar gyfer CGM. Rhaid i ysgolion gynllunio eu cwricwla eu hunain gan ystyried y canllawiau statudol CGM a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Ddeddf yn datgan yn glir bod CGM yn orfodol i bob dysgwr 3–16 oed, gan ei osod ochr yn ochr â'r Gymraeg, Saesneg ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fel hawl gyffredinol o fewn y fframwaith newydd (Hwb, 2021). Yn wahanol i Hanes neu Ddaearyddiaeth, mae CGM yn orfodol; mae'n cael ei warantu'n gyfreithiol i bob dysgwr. Fel y nodir yn y canllawiau swyddogol:

> Mae crefydd, gwerthoedd a moeseg (CGM) yn ofyniad statudol y Cwricwlwm i Gymru ac yn orfodol ar gyfer pob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Mae CGM yn ffurfio rhan o Faes y Dyniaethau. Mae'r Maes hwn yn cwmpasu daearyddiaeth; hanes; crefydd, gwerthoedd a moeseg; astudiaethau busnes; astudiaethau cymdeithasol. Mae'r disgyblaethau hyn yn rhannu llawer o themâu cyffredin, cysyniadau a sgiliau trosglwyddadwy, ac mae ganddyn nhw eu corff ar wahân eu hunain o wybodaeth a sgiliau.
>
> Nid oes gan rieni hawl i ofyn am dynnu eu plentyn o wersi CGM yn y Cwricwlwm i Gymru. (Hwb, 2022a)

Un o'r newidiadau polisi allweddol oedd dileu hawl rhieni i dynnu eu plentyn o wersi CGM. Roedd hyn yn nodi gwyriad sylweddol oddi wrth arferion blaenorol yng Nghymru ac ar draws y DU yn ehangach. Mae'r diwygiad yn adlewyrchu'r ffaith bod CGM wedi'i ail-fframio, ac nad yw'n cael ei gyflwyno mwyach fel cyfarwyddyd cyffesol ond yn hytrach fel addysg feirniadol, wrthrychol a phlwraliaethol sy'n mynd i'r afael ag argyhoeddiadau athronyddol crefyddol ac anghrefyddol (Hwb, 2022b). Pwysleisiai papurau ymgynghori Llywodraeth Cymru dro ar ôl tro fod a wnelo CGM â llythrennedd bydolygon ac ymgysylltu moesegol, yn hytrach na gwthio syniadau neu gyfranogiad gorfodol mewn unrhyw draddodiad ffydd (Llywodraeth Cymru, 2021).

Mewn egwyddor, mae sylfaen statudol CGM yn gryfach nag erioed. Nid yw bellach yn bwnc y gall rhieni optio ohono, ac mae ei le yn y cwricwlwm wedi'i sicrhau gan gyfraith. Yr her, fodd bynnag, yw bod y Ddeddf yn diffinio CGM yn orfodol ond yn gadael telerau'r mandad hwnnw – yn enwedig o ran dyraniad amser a sut y caiff ei gyflwyno – heb eu nodi'n benodol. Y cyfuniad hwn o statws cyfreithiol cryf ac eglurder gweithredol gwan yw paradocs canolog CGM o fewn y Cwricwlwm i Gymru.

2.3. Diffyg hawl amser cenedlaethol

Nid yw'r Ddeddf na'r canllawiau statudol yn nodi isafswm oriau neu amlder, gan neilltuo'r penderfyniad ar gyfer y ddeubeth i ysgolion unigol. Nid yw meysydd llafur a fabwysiedir yn lleol sy'n cyd-fynd â chanllawiau CGM cenedlaethol yn gosod dyraniadau amser, gan adlewyrchu pwyslais y Cwricwlwm i Gymru ar ymreolaeth leol. Fodd bynnag, mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch a yw'r hawl statudol yn cael ei fodloni. Mae'r cyferbyniad yn amlwg o'i gymharu â nodyn cynghori'r Eglwys yng Nghymru ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, sy'n argymell dyrannu 5–10 y cant o amser y cwricwlwm i CGM – lleiafswm o oddeutu 48 i 90 awr y flwyddyn (Yr Eglwys yng Nghymru, 2025). Er mai cynghorol yw hyn yn unig, mae'r meincnod hwn wedi dod yn ddylanwadol ymhlith ysgolion â gwedd grefyddol. Mae'r ffaith bod yr ysgolion hyn yn gweithredu gyda disgwyliadau eglurach nag ysgolion gwladol yn dwyn sylw at anghydraddoldeb craidd: mae'n bosibl bod darpariaeth CGM yn dibynnu mwy ar ethos a blaenoriaethau'r sefydliad nag ar safonau cenedlaethol.

Nid yw arwyddocâd y gymhariaeth hon i'w weld yn y ffaith bod ysgolion yr Eglwys yng Nghymru yn draddodiadol yn neilltuo mwy o amser y cwricwlwm i Addysg Grefyddol – nodwedd hirsefydlog o'u hethos unigryw – ond yn yr hyn y mae'n ei ddatgelu am y ddarpariaeth bresennol. Cyn y Cwricwlwm i Gymru, roedd hyd yn oed ysgolion gwladol yn gyffredinol yn gweithredu o fewn norm o gael Addysg Grefyddol (AG) wedi'i hamserlennu'n rheolaidd, a'i chefnogi gan feysydd llafur y cytunwyd arnynt ac, yng Nghyfnod Allweddol 4, y cwrs TGAU byr. Er bod y ddarpariaeth yn anwastad, roedd llinell sylfaen gyffredin ar y cyfan. Yn sgil diffyg hawl genedlaethol ddiffiniedig, mae'r llinell sylfaen honno wedi gwanhau. Mae eglurder parhaus y ddarpariaeth yn ysgolion yr Eglwys yng Nghymru bellach yn dwyn sylw at wahaniaeth cynyddol rhwng darpariaeth strwythuredig a chynyddol amrywiol, gan godi cwestiynau ynghylch a yw hawl statudol yn cael ei gwireddu'n gyfartal ar draws pob ysgol.

2.4. Gorfodol ond wedi'i nodi'n amwys

Mae fframwaith arolygu Estyn yn mynd i'r afael ag ansawdd, ehangder a chynnydd o fewn y cwricwlwm, ond os nad oes disgwyliadau cenedlaethol penodol ynglŷn â'r amser a neilltuir i CGM, cyfyngedig fydd dylanwad yr arolygwyr. Gall ysgolion hawlio cydymffurfiaeth trwy fapio trawsgwricwlaidd neu fewnbynnau achlysurol. Nid manylyn technegol yw'r diffyg hawl hwn ond diffyg sy'n tanseilio union nodau'r Cwricwlwm i Gymru. Bwriedir i CGM fod yn gyfrwng canolog ar gyfer cyflawni'r pedwar diben, yn enwedig yr uchelgais i ddatblygu dinasyddion moesegol a gwybodus yng Nghymru a'r byd (Hwb, 2022a). Mae'r uchelgais hwnnw'n rhagdybio amser, dyfnder a chynnydd. Mae angen cyfleoedd ailadroddus, dilyniannol ar ddysgwyr i ymgysylltu ag ymrwymiadau crefyddol ac anghrefyddol, ymarfer rhesymu beirniadol, ac ymgysylltu ag amrywiaeth bob dydd (Hwb, 2022b). Mae ymchwil yn tanlinellu'r angen hwn. Gan ddefnyddio dadansoddiadau allweddol o addysg yn y Ffindir, mae Åhs et al (2019) yn dadlau dros integreiddio addysg bydolygon er mwyn helpu disgyblion i werthfawrogi a mawrbrisio amrywiol safbwyntiau. Mae Shaw (2022) yn dadlau na ddylid trin llythrennedd bydolygon fel deilliant addysgol yn unig ond fel proses barhaus o ymgysylltiad ac atgyrchedd. Yn ôl Shaw, mae'r dull hwn yn annog myfyrwyr i ddadansoddi eu bydolygon eu hunain yn feirniadol ac yn barhaus, ochr yn ochr â bydolygon eraill, gan ddyfnhau eu dealltwriaeth o'r cymhlethdodau sy'n gynhenid mewn cymdeithas blwraliaethol (Shaw, 2022).

Heb hawl amser wedi'i gwarantu o amser yn y cwricwlwm, mae rhai dysgwyr yn profi dyfnder ystyrlon, gydag eraill yn cael profiad tameidiog yn unig. O'i roi yn blwmp ac yn blaen, mae perygl y bydd pwnc gorfodol heb iddo hawl ddiffiniedig yn peidio â bod yn orfodol o gwbl yn ymarferol. Mae'n glastwreiddio CGM i fod yn waith papur sefydliadol yn hytrach na phrofiad byw yn yr ystafell ddosbarth, gan adael y ddarpariaeth yn agored i bwysau o du amserlennu a gofynion cystadleuol y cwricwlwm. Nid bwlch technegol yn unig yw hwn; mae'n wendid systemig sy'n cyfaddawdu tegwch ac mae perygl iddo wanhau dibenion dinesig y cwricwlwm newydd.

3. Canlyniad Amwyster: Amrywiadau a Gwendidau

Nid yw diffyg hawl genedlaethol ddiffiniedig yn parhau'n fwlch polisi haniaethol; mae'n dylanwadu'n uniongyrchol ar brofiad bob dydd dysgwyr. Yn y gwactod a

grëwyd gan y diffyg canllawiau ar amser a chyflwyno, mae ysgolion wedi datblygu eu hymagweddau eu hunain at CGM. Mae rhai yn gynhwysfawr ac yn barhaus, ac eraill yn ei gyflwyno i'r graddau lleiaf posibl (Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol Cymru, 2024). Y canlyniad yw clytwaith o ddarpariaeth sy'n dibynnu mwy ar flaenoriaethau ac adnoddau sefydliadol nag ar safon genedlaethol gyffredin. Nid yw'r amrywiaeth hon yn gynhenid negyddol, oherwydd gall ymreolaeth o ran y cwricwlwm lleol feithrin arloesedd, ond yn achos CGM, mae'n arwain yn rhy aml o lawer at anghysondeb, darpariaeth dameidiog ac annhegwch o ran hawl. Mae adroddiad 2024 Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol Cymru Prifysgol Bangor yn cadarnhau'r hyn y mae ymarferwyr wedi sylwi arno ers amser maith: mae'r oriau a ddyrennir i CGM yn amrywio'n sylweddol ar draws ysgolion, gyda gwahaniaethau mawr o ran dyfnder, amlder a staffio.

3.1. Tri model cyffredin o gyflwyno

Pan fydd ysgolion yn dehongli mandad heb ei ddiffinio, fel arfer daw tri phatrwm eang o ddarpariaeth i'r amlwg. Mae pob un yn adlewyrchu ymreolaeth leol ond mae ganddynt oblygiadau gwahanol o ran dyfnder, cynnydd a thegwch. Nid yn unig y mae amlinellu'r modelau hyn yn dangos sut y mae ysgolion yn bodloni'r ddyletswydd statudol ar hyn o bryd ond mae hefyd yn esbonio pam bod profiadau dysgwyr yn amrywio mor sylweddol o'r naill leoliad i'r llall.

1. **Gwersi wythnosol ar wahân (model hawl y cwricwlwm):** Caiff CGM ei addysgu fel pwnc yn yr amserlen, fel arfer am 50–60 munud yr wythnos, gan arbenigwyr. Mae'r model hwn yn adlewyrchu strwythur blaenorol AG ac mae'n fwyaf tebygol o sicrhau cydlyniad, cynnydd, a hunaniaeth o ran pwnc. Mae ymchwil gan Gamaliia et al (2024) yn dwyn sylw at bwysigrwydd cynllunio gwersi'n feddylgar ac at arloesedd er mwyn ennyn diddordeb myfyrwyr a sicrhau ei fod yn berthnasol i heriau cymdeithasol cyfoes.
2. **Ymwreiddio trawsgwricwlaidd (model gwasgaredig)**: Gyda'r dull hwn, caiff cysyniadau CGM eu hintegreiddio i'r Dyniaethau neu i bynciau eraill, megis archwilio'r Diwygiad mewn Hanes neu archwilio themâu moesegol mewn llenyddiaeth Saesneg. Er y gall y model hwn gyfoethogi dysgu pan gaiff ei gynllunio gydag uniondeb disgyblaethol, yn ymarferol mae'n aml yn arwain at ymdriniaeth ysbeidiol ac achlysurol o CGM, heb fawr o wybodaeth neu eirfa gronnus i gefnogi

cynnydd. Mae Kaufman et al (2020) yn pwysleisio bod modelau trawsgwricwlaidd a rhyngddisgyblaethol llwyddiannus yn gofyn am strwythurau cadarn ac arweinyddiaeth wasgaredig er mwyn osgoi glastwreiddio.

3. **Diwrnodau oddi ar yr amserlen neu ddarpariaeth docenistaidd (model sy'n seiliedig ar ddigwyddiadau)**: Mae rhai ysgolion yn bodloni'r gofyniad statudol trwy gynnal diwrnodau CGM blynyddol neu achlysurol, gwasanaeth boreol, neu sesiynau gyda thiwtor. Er y gall y rhain godi ymwybyddiaeth am faterion penodol, anaml y byddant yn meithrin gwybodaeth barhaus neu resymu drwy werthuso, gan felly droi CGM yn rhywbeth atodedig neu gefnogol yn hytrach na bod yn llinyn addysgol parhaus.

Ar hyn o bryd, mae'r tri model yn cael eu trin fel ffyrdd o fodloni'r gofyniad gorfodol sy'n llawn mor ddilys â'i gilydd, ond eto maent yn cynhyrchu profiadau addysgol hynod wahanol. Heb hawl genedlaethol, nid oes mecanwaith i warantu bod pob dysgwr yng Nghymru yn derbyn yr un dyfnder a chynnydd a ragwelwyd gan y Cwricwlwm i Gymru.

3.2. Goblygiadau o safbwynt tegwch, cynnydd, a llythrennedd dinesig

Nid yw bodolaeth gwahanol fodelau cyflwyno yn gynhenid broblematig; gall cwricwlwm hyblyg, mewn egwyddor, alluogi ysgolion i addasu i gyd-destunau lleol ac integreiddio CGM i ddysgu rhyngddisgyblaethol cyfoethog. Cyfyd yr anhawster yn sgil diffyg disgwyliadau cenedlaethol. Mae Osborne a Barker (2010) yn dwyn sylw at natur ddeongliadol addysgu a'r bwlch rhwng datblygu cwricwlwm lleol a safonau cenedlaethol cyffredinol. Er bod disgwyl i athrawon greu mynegiannau lleol o ofynion cenedlaethol, nodant fod hyn yn aml yn cynhyrchu amwyster o ran gweithredu a phrofiadau addysgol anghyson ar draws ysgolion. Gall anghysondeb o'r fath effeithio ar ddealltwriaeth myfyrwyr o gysyniadau crefyddol a moesegol, wrth i athrawon ymdrin â'r cynnwys gyda dyfnder a thryloywder amrywiol, gan lastwreiddio'r ansawdd cyffredinol. Heb feincnodau hawl, mae'r tri model a amlinellir uchod yn arwain at annhegwch systemig ac yn gwanhau cyfraniad CGM i'r pedwar diben.

a) Hawl deg

Gall dysgwyr mewn ysgolion sy'n cynnig gwersi wythnosol ar wahân brofi 35–40 awr o CGM bob blwyddyn, gyda'r rhai mewn ysgolion sy'n dibynnu ar

ddiwrnodau oddi ar yr amserlen o bosibl yn cael pum neu chwe awr yn unig. Mae'r ddau ddull yn bodloni'r ddyletswydd statudol, ond mae'r gwahaniaeth yn amlwg. Mae ymchwil ddiweddar Ofsted yn cadarnhau, pan fydd Astudiaethau Crefyddol yn cael eu cyflwyno ar ddiwrnodau achlysurol, bod ansawdd AG yn wannach (Ofsted, 2024). Er bod yr ymchwil hon wedi'i chynnal yng nghyd-destun Lloegr, mae tueddiadau cymharol yn amlwg yng Nghymru. Mae'r loteri cod post hon yn tanseilio'r egwyddor y dylai pob dysgwr yng Nghymru gael mynediad at gwricwlwm eang a chytbwys. Mae hyn yn cyd-fynd â chorff ehangach o ymchwil i'r cwricwlwm sy'n dadlau bod mynediad at wybodaeth bwerus yn dibynnu ar amser strwythuredig a pharhaus yn y cwricwlwm (Young et al., 2014). Pan fydd amlygiad i faes yn ysbeidiol, mae dysgwyr yn llai abl i ddatblygu'r ddealltwriaeth gysyniadol a disgyblaethol sy'n ofynnol ar gyfer cynnydd.

b) Cynnydd ac asesu

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn rhoi pwyslais cryf ar gynnydd, sy'n dibynnu ar gyfarfyddiadau parhaus, dilyniannol â chysyniadau a dulliau disgyblaethol. Mae darpariaeth sy'n seiliedig ar ddigwyddiadau neu sydd wedi'i dosbarthu ar lefel uchel yn gwneud dilyniannu o'r fath yn anodd, gan arwain at ailadrodd cynnwys sylfaenol, bylchau mewn gwybodaeth, ac ysgrifennu drwy werthuso tanddatblygedig. Mae cyflwyno tameidiog hefyd yn golygu bod asesiadau yn docenistaidd, neu'n gwbl absennol, gan adael athrawon a dysgwyr heb ymdeimlad clir o gynnydd.

c) Arbenigedd addysgu a gwybodaeth bynciol

Mae darpariaeth ar wahân fel arfer yn dibynnu ar arbenigwyr CGM neu AC (Astudiaethau Crefyddol) hyfforddedig, sy'n cynnal arbenigedd proffesiynol. Ar y llaw arall, athrawon yn aml sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb am fodelau gwasgaredig neu achlysurol er bod eu harbenigedd mewn meysydd eraill, a all wanhau gwybodaeth a hyder mewn pwnc. Mae gofyn trin materion sensitif – megis plwraliaeth, honiadau am wirionedd sy'n cael eu herio, neu argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol – yn fedrus. Heb arbenigwyr, mae risg gwirioneddol y ceir cynrychioliadau arwynebol neu wyrgam o ymrwymiadau athronyddol crefyddol ac anghrefyddol.

d) Llythrennedd dinesig a'r Pedwar Diben

Mae CGM mewn sefyllfa unigryw i feithrin deialog barchus ar draws gwahaniaethau a myfyrdod beirniadol ar faterion moesegol. Ni ellir datblygu'r mathau yma o lythrennedd dinesig a moesol trwy amlygiad achlysurol yn unig. Os mai dim ond mewn gwasanaethau neu brosiectau achlysurol y daw dysgwyr ar draws CGM, maent yn colli'r ymarfer cronnus o resymu, dehongli a thrafod sy'n eu harfogi i ddod yn ddinasyddion moesegol, gwybodus yng Nghymru a'r byd.

Gyda'i gilydd, mae'r goblygiadau hyn yn dangos bod amwyster mewn darpariaeth orfodol yn creu gwendidau sydd wrth galon y Cwricwlwm i Gymru. Yn hytrach na bod yn hawl warantedig, daw CGM yn amodol ar flaenoriaethau lleol, adnoddau a dehongliad arolygwyr. Nid yn unig y mae'r amrywioldeb hwn yn tanseilio tegwch rhwng dysgwyr ond mae perygl iddo wanhau'n sylweddol un o uchelgeisiau dinesig craidd y cwricwlwm hefyd.

3.3. Hunaniaeth a gallu proffesiynol

Mae diffyg hawl glir yn effeithio nid yn unig ar ddysgwyr ond ar statws proffesiynol CGM a'r rhai sy'n ei addysgu hefyd. Mae amwyster ynghylch yr hyn sy'n gyfystyr â darpariaeth orfodol yn tanseilio'n raddol broffesiynoldeb y pwnc mewn sawl ffordd:

Erydiad arbenigedd arbenigol: Pan fydd ysgolion yn crebachu CGM i ddarpariaeth gyffredinol y Dyniaethau, mae arbenigwyr Hanes a Daearyddiaeth yn aml yn cael eu hadleoli i ddarparu CGM (Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol Cymru, 2024). Mae'r arfer hwn yn erydu swmp penodol o arbenigeldd pwnc a ddatblygwyd dros ddegawdau, gan gynnwys addysgeg ar gyfer ymdrin â deunydd sensitif neu ddadleuol a strategaethau asesu ar gyfer ymresymu ac ysgrifennu drwy werthuso. Mae perygl y bydd colli'r sylfaen arbenigol hon yn gwanhau CGM i drafodaethau arwynebol ynghylch gwerthoedd sydd wedi'u datgysylltu oddi wrth drylwyredd disgyblaethol. Mae hyn yn adlewyrchu canfyddiadau ehangach ar gyflwyno'r cwricwlwm, sy'n dangos bod athrawon yn dehongli ac yn gwireddu fframweithiau'r cwricwlwm mewn ffyrdd sydd wedi'u llywio gan eu gwybodaeth am y pwnc, y cyd-destun sefydliadol, a gallu proffesiynol (Priestley, Biesta a Robinson, 2015).

Gwanhau rhwydweithiau proffesiynol: Mae strwythurau cynghori – y CYSAGau gynt a bellach y Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog (CYSau) – yn

dibynnu ar gronfa o athrawon arbenigol ac arweinwyr pwnc i gynnal deialog rhwng ysgolion, cymunedau a llunwyr polisi. Mae sefydliadau cenedlaethol fel Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru (CCYSAGC) a Phanel Ymgynghorol Cenedlaethol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (NAPfRVE) yn yr un modd yn dibynnu ar bresenoldeb gweithwyr proffesiynol hyderus mewn ysgolion er mwyn sicrhau cynrychiolaeth gadarn. Mae amwyster yn gwneud hyn yn anos. Os yw CGM yn cael ei amsugno o fewn fframwaith Dyniaethau generig, yna bydd llai o staff yn cael eu dynodi fel arweinwyr pwnc, a bydd rhwydweithiau proffesiynol yn cael trafferth gweithredu'n effeithiol.

Galwadau am eglurder gan y proffesiwn: Mae'r pwysau hyn yn amlwg yng nghyfathrebiadau'r sector. Ym mis Ebrill 2025, ysgrifennodd Cadeirydd CCYSAGC at Lynne Neagle AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, yn gofyn am eglurder brys ar sicrhau CGM ystyrlon ledled Cymru, yn enwedig ar gyfer Blynyddoedd 10 ac 11 lle mae dileu'r cwrs TGAU byr wedi gwneud y ddarpariaeth yn arbennig o fregus (CCYSAGC 2025a). Mae hyn yn ddadlennol. Daw'r galw am hawl a chanllawiau cliriach nid yn unig gan feirniaid y Cwricwlwm i Gymru ond hefyd gan y corff proffesiynol sy'n fwyaf cysylltiedig â'i gyflwyno hefyd.

Gyda'i gilydd, mae'r ffactorau hyn yn dangos bod perygl y bydd amwyster yn gwanhau sylfaen broffesiynol y pwnc, gan ei gwneud hi'n anos cynnal arbenigedd, rhwydweithiau ac atebolrwydd.

3.4. Dallbwyntiau o ran atebolrwydd

Gwaethygir y broblem gan wendidau mewn mecanweithiau arolygu ac atebolrwydd. Mae fframwaith Estyn wedi'i gynllunio i werthuso ehangder, cydlyniad a chynnydd y cwricwlwm; fodd bynnag, pan fydd ysgol yn honni bod CGM wedi'i ymwreiddio trwy'r cwricwlwm cyfan, bydd arolygu yn aml yn troi'n archwiliad o ddatganiadau polisi a mapiau o'r cwricwlwm yn hytrach nag yn wiriad dibynadwy o brofiad dysgwyr yn yr ystafell ddosbarth.

Heb hawl ddiffiniedig, nid oes gan arolygwyr feincnod cenedlaethol o amser neu strwythur y gellir mesur digonolrwydd yn ei erbyn. Gall ysgol sy'n darparu tri deg pum awr o CGM dilyniannol dros flwyddyn ac ysgol sy'n cynnig un diwrnod oddi ar yr amserlen ill dwy ddangos, ar bapur, eu bod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd statudol. O ganlyniad, gall ysgolion sy'n cyflwyno'r ddarpariaeth i'r graddau lleiaf

posibl barhau i gael eu hystyried yn ysgolion sy'n bodloni'r gofynion – gan gydymffurfio â llythyren y ddeddf ond nid ei hysbryd.

Mae hyn yn amlygu cyfyngiad arwyddocao ar dystiolaeth cenedlaethol. Mae Estyn yn darparu mewnweledigaeth gwerthfawr i gynllun, gweithredu ac ansawedd cwricwlwm yn yr ysgolion a archwilir, ond nid yw tystiolaeth archwiliadau yn unig yn rhoi darlun cynhwysfawr o ddigonolrwydd darpariaeth CGM ar draws holl ysgolion Cymru.

4. Cymharu â'r Fframwaith Addysg Grefyddol Blaenorol

Mae archwilio'r fframwaith a oedd yn llywodraethu Addysg Grefyddol cyn cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn gam dadlennol. Mae'n datgelu beth sydd wedi newid a'r hyn sydd wedi'i golli wrth drawsnewid o AG i CGM. Yn benodol, mae'n dangos, er nad oedd y system flaenorol heb ei diffygion, fod ynddi ymdeimlad cryfach o amser, strwythur a disgwyliad na'r trefniant presennol.

O dan y drefn cyn 2022, roedd Addysg Grefyddol yng Nghymru yn orfodol i bob dysgwr ac yn cael ei chyflwyno o dan feysydd llafur y cytunwyd arnynt yn lleol dan oruchwyliaeth CYSAGau. Er bod y system hon yn dameidiog – roedd pob awdurdod lleol yn cynnal ei faes llafur ei hun – ceisiodd Llywodraeth Cymru gyflwyno cysondeb drwy'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer AG (2008), a gynhyrchwyd gan yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) ac Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC). Mae llawer o awdurdodau lleol wedi mabwysiadu'r fframwaith hwn yn ei gyfanrwydd neu wedi'i addasu'n agos, gan arwain at lefel gymharol uchel o gysondeb ledled Cymru (CCYSAGC, 2025b).

Efallai, yn bwysicaf oll, roedd yna norm a ddeellir yn eang o wersi addysg grefyddol wythnosol wedi'u hamserlennu. Er bod rhai meysydd llafur yn nodi'n benodol nad oedd unrhyw gyfyngiadau statudol ar amser, roeddent bron bob amser yn annog ysgolion i ddyrannu darpariaeth a oedd yn gymaradwy â phynciau eraill nad oeddent yn bynciau craidd. Roedd hyn yn gyfystyr â meincnod hawl ymhlyg. Er enghraifft, roedd maes llafur Caerdydd 2008 yn cynghori fel hyn:

> There are no constraints relating to time allocation … but schools should ensure provision is comparable to the non-core subjects and sufficient to deliver the programmes of study. (CYSAG Caerdydd, 2008)

Er bod datganiadau o'r fath yn gynghorol yn hytrach na chyflynol, roedd iddynt gryn bwysigrwydd. Yn gyffredinol, roedd ysgolion yn eu dehongli fel rhai a oedd yn gofyn am ddarpariaeth reolaidd wedi'i hamserlennu - fel arfer un wers yr wythnos ar gyfer Blynyddoedd 7–9 – ac yn aml, math o gwrs achrededig neu raglen strwythuredig ar gyfer Blynyddoedd 10–11. Yn fyr, er bod rhywfaint o amwyster yn y system flaenorol, roedd yn darparu disgwyliadau a oedd yn fwy clir na'r diffyg canllawiau cenedlaethol cyfredol.

O dan y Cwricwlwm i Gymru, mae'r rhan fwyaf o Gynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer CGM wedi dewis peidio â chynhyrchu meysydd llafur newydd y cytunir arnynt yn lleol, gan yn hytrach gymeradwyo canllawiau CGM cenedlaethol Llywodraeth Cymru fel rhai sy'n ddigonol er mwyn cydymffurfio'n statudol. Mae hyn yn adlewyrchu'r symudiad cwricwlaidd ehangach oddi wrth fanyleb ragnodol tuag at fframwaith sy'n cael ei arwain gan egwyddorion sy'n blaenoriaethu ymreolaeth broffesiynol a chynllunio'r cwricwlwm yn lleol. Serch hynny, mae tri CYSAG yng Nghymru wedi mabwysiadu ymagweddau gwahanol drwy ddatblygu meysydd llafur y cytunwyd arnynt yn lleol sy'n cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru. Mae'n bwysig nodi nad yw'r meysydd llafur hyn yn gweithredu fel cwricwla gorfodol; yn hytrach, maent yn gweithredu fel fframweithiau enghreifftiol a galluogol, gan gynnig enghreifftiau o sut y gellid cysyniadu, strwythuro a chyflwyno CGM o fewn y system newydd. Eu pwrpas yw cefnogi cydlyniad a chynnydd heb ailgyflwyno rhagnodi manwl.

Mae'r amrywiad hwn yn arwyddocaol. Er bod y Cwricwlwm i Gymru yn dileu'n ffurfiol yr angen am feysydd llafur y cytunir arnynt yn lleol, mae'r ffaith bod nifer fach o CYSAGau wedi dewis mynd ati, serch hynny, i ddatblygu canllawiau lleol sy'n cyd-fynd â'i gilydd yn awgrymu ansicrwydd parhaus ynghylch beth yw union natur CGM ystyrlon yn ymarferol. Oherwydd bod y meysydd llafur hyn yn ddewisol ac yn cael eu mabwysiadu'n anghyson, fodd bynnag, ni allant wneud iawn am y ffaith nad oes hawl genedlaethol gyffredin.

4.1. TGAU AC a'r cwrs TGAU byr fel angorau strwythurol

O dan y fframwaith blaenorol, roedd TGAU AC yn gweithredu fel angor strwythurol allweddol ar gyfer Addysg Grefyddol yn yr hyn a oedd bryd hynny yn Gyfnod Allweddol 4 (Blynyddoedd 10–11). Byddai llawer o ysgolion yn ymrestru carfannau cyfan ar y cwrs byr, y gellid ei gyflwyno o fewn dyraniad cymedrol o

amser y cwricwlwm – yn aml un wers yr wythnos dros gyfnod o ddwy flynedd. Roedd y model yn cynnig sawl budd: roedd yn darparu dilysiad allanol ar ffurf cymhwyster a oedd yn cael ei gydnabod yn genedlaethol, roedd yn cynnig maes llafur strwythuredig a fframwaith asesu a oedd yn cefnogi ansawdd yr addysgu a chynnydd, ac roedd yn creu cymhelliant sefydliadol cryf i ysgolion amserlennu AG yn ystyrlon ym Mlynyddoedd 10 ac 11, gan fod yr ymrestriadau i'r arholiadau a'r deilliannau yn cyfrannu at fesurau atebolrwydd.

Er bod y fframwaith statudol bellach yn cyfeirio at CGM, mae llwybr y cymhwyster yn parhau o dan y teitl AC. Mae hyn yn codi cwestiynau pwysig am rôl a phwrpas CGM i bobl ifanc 15 ac 16 oed, yn enwedig i'r rhai sy'n paratoi ar gyfer TGAU AC. Er bod y ddau fframwaith yn rhannu rhywfaint o gynnwys, maent yn amrywio'n sylweddol o ran ethos: mae CGM wedi'i gynllunio fel archwiliad cynhwysol, plwraliaethol o ymrwymiadau athronyddol crefyddol ac anghrefyddol o fewn y Maes Dyniaethau, tra bod TGAU AC yn parhau i fod yn bwnc a asesir gyda chynnwys ac amcanion rhagnodedig. Heb ganllawiau clir, mae perygl y bydd ysgolion yn dyblygu ymdrech neu'n blaenoriaethu paratoi ar gyfer TGAU ar draul nodau ehangach CGM.

Mae ymreolaeth y cwricwlwm o dan y Cwricwlwm i Gymru yn rhoi hyblygrwydd i athrawon, ond caiff y rhyddid hwn ei gyfyngu gan amwyster. Y tu hwnt i'r pedwar diben, nid oes fawr o gyfeiriad cenedlaethol ar yr wybodaeth, y sgiliau neu'r ddealltwriaeth gysyniadol sydd eu hangen er mwyn sicrhau cynnydd esmwyth i TGAU AC. Yn sgil y diffyg cysondeb hwn, mae perygl y bydd gwahaniaethau rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol, yn enwedig lle mae adnoddau neu arbenigedd arbenigol yn amrywio. Felly, mae mwy o eglurder yn hanfodol – nid er mwyn cyfyngu ar ryddid proffesiynol, ond er mwyn sicrhau cydlyniad rhwng CGM statudol a llwybrau arholiadau, gan gadw uniondeb y cwricwlwm newydd a deilliannau teg i ddysgwyr.

4.2. Tro Donaldson a'r Cwricwlwm i Gymru

Roedd adolygiad Donaldson, 'Dyfodol Llwyddiannus' (2015), yn nodi newid athronyddol pendant ym maes addysg Cymru. Roedd yn argymell symud i ffwrdd o gynnwys rhagnodedig tuag at gwricwlwm wedi'i arwain gan ddibenion, wedi'i ddylunio'n lleol, ac yn seiliedig ar y pedwar diben a chwe MDaPh. Roedd integreiddio CGM i MDaPh y Dyniaethau yn adlewyrchu'r weledigaeth hon. Nod

cynigion Donaldson oedd mynd i'r afael â thangyflawniad a hunan-barch isel trwy osod Addysg Grefyddol yn y Maes Dyniaethau fel pwnc statudol o'r dosbarth Derbyn ymlaen.

Paratôdd y dull hwn y ffordd ar gyfer model mwy plwraliaethol a amlinellwyd yn 'Cenhadaeth ein Cenedl' (Llywodraeth Cymru, 2019), a gynigiodd ostwng yr oedran cychwyn AG i dair oed, ymestyn y ddarpariaeth i un ar bymtheg oed, ac ymgorffori ymrwymiadau athronyddol anghrefyddol megis Dyneiddiaeth. Er gwaethaf cryn wrthwynebiad – cafodd y newidiadau hyn, yn enwedig parthed cynnwys safbwyntiau anghrefyddol a dileu hawl rhieni i dynnu eu plant o wersi, eu gwrthwynebu gan ddwy ran o dair o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad (O'Prey ac Usher, 2020) – bwrw ymlaen â'r model a wnaeth Llywodraeth Cymru. Erbyn 2020, ailenwyd Addysg Grefyddol (AG) yn CGM, gan gyflwyno 'Gofyniad Plwraliaethol' i addysgu credoau crefyddol ac anghrefyddol. Deddfwyd hyn drwy Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, gan wneud CGM yn orfodol i ddysgwyr 3 i 16 oed.

Fodd bynnag, mae ymdrechion i ddiffinio crefydd a sicrhau cynhwysiant wedi sbarduno dadleuon parhaus ynglŷn ag addysgeg, plwraliaeth, ac ymreolaeth ysgolion â gwedd grefyddol. Mewn egwyddor, roedd y diwygiad yn un blaengar. Roedd yn gosod Addysg Grefyddol yn rhes disgyblaethau dyneiddiol eraill, yn annog dysgu rhyngddisgyblaethol, ac yn cefnogi'r nod ehangach o ddatblygu dinasyddion moesegol, gwybodus. Roedd disgwyl i hyblygrwydd lleol gael ei arfer yn y fframwaith a fyddai'n sicrhau bod gwybodaeth a phrofiadau craidd yn cael eu diogelu.

Yr anhawster yn ymarferol yw bod yr amddiffyniadau hynny – yn enwedig yr hawliau o ran yr amser gofynnol a'r strwythur – wedi diflannu i raddau helaeth. Ceir manteision hyblygrwydd lleol bellach ar draul sicrhau tegwch i bawb a chysondeb. Mae ysgolion sydd ag arweinyddiaeth gref a staff arbenigol yn parhau i ddarparu CGM cyfoethog, tra bod eraill, wedi'u cyfyngu gan bwysau ynghylch perfformiad a chanllawiau cyfyngedig, wedi ei leihau i fod yn ddarpariaeth dameidiog (Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol Cymru, 2024).

Arferai'r fframwaith AG ddarparu eglurder ymhlyg trwy normau, cymwysterau, a meincnodau cynghorol. Dim ond statws gorfodol statudol heb ddiffiniad gweithredol y mae'r system bresennol yn ei gynnig. O ganlyniad, mae'r hawl bellach yn llai diogel nag o'r blaen, er gwaethaf y cynnydd ym mhwysigrwydd dinesig ac addysgol y pwnc.

5. Blynyddoedd 10 ac 11: Llywio'r Pwynt Tyngedfennol heb y Cwrs Byr

Mae Blynyddoedd 10 ac 11 bob amser wedi bod yn gyfnod tyngedfennol i Addysg Grefyddol yng Nghymru. Ar y pwynt hwn, mae dysgwyr yn ddigon aeddfed i ymgysylltu â dadleuon moesegol cymhleth a chwestiynau dadleuol am grefydd, moeseg a gwerthoedd. Ond mae pwysau'r cwricwlwm yn dwysáu wrth i ysgolion baratoi dysgwyr ar gyfer arholiadau cyhoeddus, ac wrth i gyrsiau TGAU ddominyddu'r amserlenni. Yn hanesyddol, roedd y cwrs TGAU byr mewn AC yn darparu ateb strwythurol, gan gynnig dilysiad allanol ac ysgogiad i ysgolion ddyrannu amser rheolaidd ar gyfer AG yn y cwricwlwm. Mae ei dynnu o'r cwricwlwm yn creu'r hyn y gellir ei ddisgrifio'n deg fel pwynt tyngedfennol i CGM.

O fis Medi 2025, cyflwynodd Cymru TGAU AC wedi'i wneud ar gyfer Cymru, a oedd yn cydfynd â'r Cwricwlwm i Gymru ac yn ymgorffori mwy o rôl ar gyfer asesu di-arholiad. Ar bapur, mae hwn yn ddatblygiad cadarnhaol – cymhwyster wedi'i deilwra i flaenoriaethau Cymru, gan bwysleisio ymholiad ac ymgysylltu myfyriol. Fodd bynnag, mae'r diffyg opsiwn o gwrs byr yn arwydd o droi cefn pendant ar ymarfer y gorffennol. Am ddau ddegawd, y cwrs byr oedd y prif ddull yr oedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yng Nghymru yn ymgysylltu ag AG ym Mlynyddoedd 10-11. Mae Cymwysterau Cymru a CBAC wedi cadarnhau nad oes unrhyw gynlluniau i'w ailgyflwyno (CBAC, 2025).

Mae'r newid hwn o bwys am dri rheswm cydgysylltiedig. Yn gyntaf, cymhellion o ran amserlennu: roedd y cwrs byr yn cyfiawnhau dyraniad cymedrol ond rheolaidd o amser y cwricwlwm – yn aml gwers wythnosol dros gyfnod o ddwy flynedd – oherwydd bod nifer yr ymrestriadau i'r arholiad yn cyfrannu at fesurau atebolrwydd. Heb yr angor hwn, gall ysgolion dan bwysau newid y gwersi hynny i bynciau yn arddull Bagloriaeth Cymru neu gyrsiau TGAU mwy newydd sy'n cael eu hystyried yn fwy buddiol. Yn ail, cwmpas y carfannau: ni fydd y cwrs TGAU AC llawn amser yn hawl gyffredinol. Pan gaiff ei gynnig fel opsiwn, dim ond lleiafrif a fydd yn cael ei ddenu ganddo, gan adael y rhan fwyaf o ddysgwyr yn ddibynnol ar ddarpariaeth CGM di-arholiad, sy'n hynod amrywiol ac yn aml yn brin. Yn drydydd, tegwch: mae angen sylfaen ddiogel mewn llythrennedd crefyddol a moesegol ar bob dysgwr er mwyn ymgysylltu'n feirniadol â bydolygon amrywiol, herio rhagfarn, a chymryd rhan ystyrlon mewn cymdeithas blwraliaethol. Mae perygl y bydd mynediad cyfyngedig yn creu bylchau mewn dealltwriaeth a all danio camddealltwriaeth, rhagfarn a gwahaniaethu.

Mae'r pryderon hyn yn real ac o bwys mawr. Mae arbenigwyr yn y sector wedi rhybuddio'n gyson am hyn. Heb ganllawiau clir i'r rhai nad ydynt yn dilyn cwrs TGAU AC, dadleuodd Russell Sandberg y gallai CGM gael ei wthio i'r cyrion yn hawdd ac y gallai o dipyn i beth gael ei esgeuluso yn y pen draw (Sandberg, 2022). Yn yr un modd, mae Cymdeithas Genedlaethol Athrawon Addysg Grefyddol (NATRE) a chyrff proffesiynol eraill wedi tynnu sylw at y gostyngiad yn y niferoedd a ymrestrodd i ddilyn y cwrs byr yn y blynyddoedd yn arwain at y diwygio a'i effaith negyddol ar gyfranogiad. Mae'r trywydd yn glir: heb amddiffyniadau cryf, bydd darpariaeth ym Mlynyddoedd 10 ac 11 yn crebachu.

Mae'r goblygiad ehangach yn crisialu thema ganolog yr erthygl hon. Mae pwnc gorfodol heb hawl ddiffiniedig yn fregus. Mewn system lle mae llwybrau cymwysterau yn gyrru amserlennu, bydd diflaniad llwybr sy'n cynnwys arholiadau i bawb trwy'r cwrs byr yn gadael CGM ar drugaredd ewyllys dda ysgolion a'u dehongliad goddrychol o ddyletswydd statudol. Bydd rhai ysgolion yn cynnal darpariaeth gynhwysfawr drwy'r cwrs TGAU llawn neu gyrsiau cadarn di-arholiad; bydd eraill yn lleihau CGM i ymdriniaeth docenistaidd yn unig. Y risg yw mai'r rhai sydd angen ymgysylltu'n ystyrlon â chrefydd, gwerthoedd a moeseg fwyaf fydd y rhai sy'n lleiaf tebygol o gael y cyfle i wneud hynny.

6. CGM Trawsgwricwlaidd: Cyfle neu Risg o Lastwreiddio?

Un o nodweddion diffiniol y Cwricwlwm i Gymru yw ei bwyslais ar gynllunio trawsgwricwlaidd. Anogir ysgolion i feithrin cysylltiadau rhwng pynciau, ac o fewn MDaPh y Dyniaethau disgwylir i safbwyntiau disgyblaethol weithio mewn deialog. Yn achos CGM, mae hyn yn cynnig cyfleoedd gwirioneddol. O'i wneud yn dda, gall integreiddio ddyfnhau'r dysgu – er enghraifft, defnyddio dulliau cymdeithasegol i archwilio crefydd mewn cymunedau lleol neu gymhwyso dadansoddiad athronyddol i archwilio dilemâu moesegol o safbwynt materion cyfoes. Mae ymagweddau o'r fath yn gwneud CGM yn weladwy y tu hwnt i'w slot ei hun yn yr amserlen ac yn dwyn sylw at ei berthnasedd i bryderon dynol ehangach.

Ac eto, mae'r buddion hyn yn fregus heb feincnodau clir o ran hawliau. Yn sgil diffyg disgwyliadau sylfaenol, bydd yn hawdd i CGM trawsgwricwlaidd gael ei lastwreiddio o dipyn i beth. O dan bwysau i resymoli amserlenni neu fodloni gofynion atebolrwydd, gall ysgolion gyfuno CGM o fewn pynciau eraill, ac nid fel

ffordd o'u cyfoethogi ond fel strategaeth oroesi. Mae perygl y bydd yr hyn a fwriadwyd i wella'r pwnc yn tanseilio ei gydlyniad.

Ceir sawl gwendid yn sgil y sefyllfa hon. Yn gyntaf, collir uniondeb y ddisgyblaeth. Nid yw CGM yn ymwneud â gwerthoedd yn unig; mae'n cynnwys dulliau disgyblaethol penodol – dehongli testunol, dadansoddi dadleuon athronyddol, ac ymholi cymdeithasegol – sy'n gofyn am addysgu ac ymarfer penodol. O safbwynt a arweinir gan wybodaeth, mae perygl y bydd cydlyniad y cwricwlwm yn gwanhau os bydd ffiniau disgyblaeth yn mynd yn rhy amwys. Mae Maton (2014) yn dadlau bod angen i ddysgwyr gael mynediad at ffyrdd arbenigol o greu gwybodaeth er mwyn datblygu dealltwriaeth gronnus; pan fo pynciau'n cael eu gwanhau'n themâu generig, bydd cynnydd yn anodd i'w gynnal. Pan fydd CGM yn cael ei grebachu i'r Dyniaethau generig neu'n cael ei wasgaru'n denau ar draws Saesneg, Hanes, neu Ddaearyddiaeth, mae perygl y bydd y dulliau hyn yn cael eu gwanhau i fod yn sgyrsiau arwynebol am foesoldeb neu wahaniaethau diwylliannol, heb fawr o'r dyfnder na'r trylwyredd a ragwelwyd gan y canllawiau statudol.

Mae'r ail elfen wendid yn ymwneud â chynnydd. Mae'r Cwricwlwm i Gymru wedi'i strwythuro o amgylch camau cynnydd o 3 i 16 oed, ond mae cynnydd yn dibynnu ar barhad. Anaml y bydd mewnbynnau gwasgaredig, waeth pa mor greadigol, yn ychwanegu at fodel datblygiadol cydlynol. Pwynt a danlinellir gan ymchwil. Mae cydlyniad addysgiadol yn cydberthyn yn gadarn i gyflawniad (Newmann et al. 2001), ac mae dylunio tameidiog yn lleihau manteision addysgol (Kivarina a Makarevich, 2020). Yn ymarferol, mae hyn yn aml yn arwain at ailadrodd pynciau diogel, cyfarwydd – gwyliau, bwyd, negeseuon generig yn ymwneud â pharch – gan osgoi materion dadleuol neu gyfoes megis argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol, secwlareiddio, neu amrywiaeth bywyd yn y Gymru gyfoes. Gadewir dysgwyr gyda bylchau yn eu gwybodaeth a rhesymu drwy werthuso tanddatblygedig. Mae ymchwil i werthoedd ac addysg grefyddol mewn cyd-destunau rhyngwladol yn yr un modd yn dangos bod addysg ystyrlon, foesegol, bydolygol yn dibynnu ar addysgeg gydlynol ac ymgysylltu parhaus â'r cwricwlwm, yn hytrach na chyflwyniad ysbeidiol neu fugeiliol (Lovat et al., 2010; Ofsted, 2024).

Mae'r trydydd gwendid yn ymwneud ag anhryloywder o ran asesu. Os datgenir bod CGM ym mhobman, yna ni fydd yn cael ei asesu yn unman. Os oes asesiad, mae'n aml yn erbyn meini prawf sy'n perthyn i bwnc arall – ysgrifennu estynedig yn Saesneg, dadansoddi ffynhonnell mewn Hanes, neu ddehongli data mewn

Daearyddiaeth – yn hytrach nag yn erbyn meini prawf llwyddiant penodol CGM. Mae hyn yn gwanhau adborth, yn celu cynnydd dysgwyr, ac yn gwneud arolygu a gwerthuso'n anodd.

Nid yw'r risgiau hyn yn unigryw i CGM. Mae ymchwil gymharol i gwricwlwm a gynlluniwyd yn lleol, yng Nghymru ac yn rhyngwladol, yn dangos bod ymreolaeth heb amddiffyniadau yn tueddu i ehangu bylchau rhwng ysgolion a rhwng dysgwyr (OECD, 2021; WISERD, 2022). Mae'n bosibl y bydd ysgolion sydd ag arweinyddiaeth gref a llawer o adnoddau yn cyflwyno darpariaeth integredig gyfoethog, tra bydd eraill yn profi darpariaeth dameidiog, neu ddarpariaeth a gyflwynir i'r graddau lleiaf posibl. Adleisir y pryder hwn yn adolygiad Estyn o MDaPh y Dyniaethau (Estyn, 2025), sy'n nodi bod CGM wedi'i ddatblygu'n gymharol annigonol o ran gwireddu'r cwricwlwm ar draws ysgolion, gan atgyfnerthu'r bwlch rhwng bwriad y polisi a'r ddarpariaeth sydd ar waith. Mae'r wers yn glir: mae ymreolaeth y cwricwlwm yn gofyn am feincnodau o safbwynt hawliau fel nad yw'n tanseilio cynhwysiant a thegwch.

Mae'r angen yn un dybryd, yn enwedig wrth i ni ystyried y broses o bontio i'r cwrs TGAU AC. Mae angen i ddysgwyr sy'n astudio CGM hyd at Flwyddyn 10 gael meincnodau clir i baratoi ar gyfer disgwyliadau academaidd penodol TGAU AC. Heb barhad cwricwlaidd uniongyrchol, maent mewn perygl o ddod ar draws newid sylweddol o ran cynnwys a sgiliau. Byddai sefydlu camau cynnydd penodol – sydd wedi'u diffinio'n fwy clir na'r 'camau cynnydd' cyffredinol sy'n dibynnu ar ddisgresiwn athrawon ar hyn o bryd – yn helpu i bontio'r bwlch hwn ac yn cefnogi proses bontio haws a thecach.

Yn fyr, mae dulliau trawsgwricwlaidd yn gleddyf deufin. Mae ganddynt y potensial i gysylltu ymholiad crefyddol ac athronyddol â phryderon dynol ehangach, ond heb hawl ddiffiniedig glir, mae perygl iddynt wanhau'r pwnc i'r pwynt lle bydd yn bresenoldeb amwys a thocenistaidd, sy'n methu â meithrin gwybodaeth, sgiliau, neu lythrennedd dinesig.

7. Yr Angen Dinesig ac Addysgol am CGM

Nid yw'r gwendidau a nodwyd hyd yma – diffyg hawl o ran amser, modelau amrywiol o gyflawni, colli angorau strwythurol ym Mlynyddoedd 10 ac 11, a'r risgiau o lastwreiddio trwy addysgu trawsgwricwlaidd – yn fanylion technegol yn unig.

Maent wrth wraidd yr hyn y mae'r Cwricwlwm i Gymru wedi'i gynllunio i'w gyflawni. Nid pwnc ymylol yw CGM; mae'n ganolog i genhadaeth ddinesig ac addysgol y cwricwlwm. Os caniateir iddo droi o dipyn beth yn docenistaidd, teimlir yr effeithiau nid yn unig gan ddysgwyr unigol ond gan gymdeithas Cymru yn ei chyfanrwydd.

7.1. Dibenion addysgol a sylfeini cyfreithiol

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn seiliedig ar y pedwar diben: datblygu dysgwyr uchelgeisiol, galluog; cyfranwyr creadigol; unigolion iach, hyderus; dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd O'r rhain, yr olaf sy'n cyd-fynd yn fwyaf uniongyrchol â CGM. Mae'r pwnc hwn yn arfogi dysgwyr i ddeall bydolygon amrywiol, gwerthuso honiadau am wirionedd, dadansoddi dadleuon moesegol, ac ymgysylltu'n barchus â'r rhai sy'n meddwl yn wahanol. Heb amser a strwythur digonol, bydd y nodau hyn yn parhau'n rhai uchelgeisiol. Ni all digwyddiadau achlysurol na gwersi generig adeiladu'r eirfa o resymu moesegol neu arferion deialog ar draws gwahaniaethau y mae dinasyddiaeth mewn cymdeithas luosol yn gofyn amdanynt.

Mae'r canllawiau statudol yn fframio CGM fel darpariaeth wrthrychol, feirniadol a phlwraliaethol, sy'n cyd-fynd â chyfreitheg y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ar addysg am grefydd a chred (Hwb, 2022a). Roedd hyn yn ganolog i benderfyniad Llywodraeth Cymru i ddileu hawl rhieni i dynnu eu plant o wersi CGM (Llywodraeth Cymru, 2021). Mae cyfranogiad cyffredinol yn gyfreithlon ac yn ddymunol – ond dim ond os yw'r pwnc yn cael ei gyflwyno gyda dyfnder a pharhad. Heb hawl glir, mae plwraliaeth mewn perygl o droi'n slogan polisi yn hytrach na realiti yn yr ystafell ddosbarth, gan greu gwendidau cyfreithiol. Gallai darpariaeth docenistaidd arwain at heriau ble na all CGM fodloni'r safonau gwrthrychedd a phlwraliaeth sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

7.2. Cydlyniant dinesig a gwydnwch democrataidd

Mae'r hyn sydd yn y fantol yn mynd y tu hwnt i addysg. Mewn byd o bolareiddio a chamwybodaeth, mae'r gallu i ymgysylltu'n barchus â bydolygon amrywiol yn anghenraid democrataidd (Hwang, 2025; Zrudlo, 2022; Lackner, 2021). Mae ymgysylltu strwythuredig â chrefydd a moeseg yn meithrin empathi ar draws gwahaniaethau, y gallu i ddehongli honiadau moesol cymhleth, a'r sgìl i ddadlau heb elyniaeth. Nid yw'r

rhinweddau dinesig hyn yn ymddangos mewn penawdau am ddata cyrhaeddiad, ond mae eu habsenoldeb yn weladwy mewn bywyd cyhoeddus. Mae llythrennedd bydolwg gwannach, llai o empathi, a llai o allu i resymu'n gyhoeddus yn gadael cymdeithasau yn agored i boblyddiaeth ac eithafiaeth. Felly, nid yw CGM yn ymwneud â deilliannau dysgu yn unig; mae'n ymwneud â chynnal gwead dinesig Cymru.

Gyda'i gilydd, mae'r safbwyntiau hyn yn awgrymu, heb amser parhaus yn y cwricwlwm, eglurder disgyblaethol ac arbenigedd, nad yw statws gorfodol yn unig yn ddigonol i warantu hawl addysgol ystyrlon.

8. O Orfodol i Ystyrlon: Argymhellion ar gyfer Diwygio

Er bod CGM yn orfodol yn y gyfraith, mae'r dadansoddiad yn yr erthygl hon yn dangos bod diffyg hawl genedlaethol ddiffiniedig yn gadael y pwnc yn ymarferol. Er mwyn sicrhau tegwch ac ansawdd, ond gan gadw'r hyblygrwydd lleol sy'n ganolog i'r Cwricwlwm i Gymru, dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu pecyn cytbwys o ddiwygiadau. Nod yr argymhellion cydgysylltiedig canlynol yw sicrhau bod 'gorfodol' yn cyfateb i ddysgu ystyrlon i bob dysgwr.

8.1. Gosod lleiafswm hawl amser cenedlaethol

Y cam sydd angen ei weithredu â'r brys mwyaf yw'r un i fynd ati'n genedlaethol i neilltuo amser yn y cwricwlwm ar gyfer CGM. Nid oes angen i hyn fod yn ormodol, ond rhaid iddo fod yn ddigonol i ganiatáu cynnydd, dyfnder ac asesu. Hawl resymol fyddai:

- Cynradd (3–11 oed): Ar gyfartaledd, 60 munud yr wythnos, a gyflwynir ar ffurf gwersi ar wahân neu ddilyniannau integredig, ar yr amod y gall ysgolion ddangos amser a chynnydd cyfatebol.
- Uwchradd iau (11–14 oed): Ar gyfartaledd, 50–60 munud yr wythnos, neu'r hyn sy'n gyfwerth dros gyfnod o bythefnos, a addysgir gan arbenigwyr pwnc lle bynnag y bo modd.
- Blynyddoedd 10–11 (14–16 oed): O leiaf 30–40 awr y flwyddyn ar gyfer pob dysgwr nad yw'n dilyn TGAU AC, gyda deilliannau clir, y gellir eu hasesu i gyd-fynd â'r canllawiau CGM statudol.

Mae argymhelliad cynghorol yr Eglwys yng Nghymru o 5–10 y cant o amser y cwricwlwm (lleiafswm o oddeutu 48 i 90 awr y flwyddyn) yn dangos bod y cyfryw ddisgwyliadau eisoes yn cael eu hystyried yn ymarferol mewn rhannau o'r sector (Yr Eglwys yng Nghymru, 2025). Byddai sylfaen genedlaethol islaw hyn, ond uwchlaw darpariaeth docenistaidd, yn sicrhau cydbwysedd rhwng tegwch a hyblygrwydd.

8.2. Diffinio disgwyliadau cyflwyno ar gyfer modelau integredig

Ni all modelau trawsgwricwlaidd lwyddo oni bai eu bod yn cadw uniondeb disgyblaethol. Dylai fod yn ofynnol i ysgolion sy'n defnyddio'r cyfryw fodelau ddarparu:

- Mao sy'n dangos ymdriniaeth â chysyniadau CGM a safbwyntiau disgyblaethol trwy gydol y flwyddyn.
- Cyfriflyfr amser sy'n tystio bod yr isafswm hawl wedi'i fodloni.
- Tystiolaeth asesu gan ddefnyddio meini prawf sy'n benodol i CGM.

Yn ogystal, dylai pob ysgol gyflwyno o leiaf un uned sylweddol, ddilyniannol y flwyddyn wedi'i labelu'n benodol fel CGM yn yr amserlen neu yn y cylch adrodd. Byddai hyn yn cadw gweledegd y dysgwr a hunaniaeth y pwnc, gan atal CGM rhag cael ei lyncu gan addysg 'gwerthoedd' generig.

8.3. Cryfhau arolygu ac adrodd

Mae arolygu mor effeithiol â'r safonau y mae'n eu mesur. Dylai Estyn ddiweddaru ei lawlyfrau gydag awgrymiadau penodol megis:

- Beth yw cyfanswm yr hawl o ran amser ar gyfer CGM yn ôl grŵp blwyddyn?
- Sut y dangosir tystiolaeth o gynnydd disgyblaethol?
- Pa gyfran o'r gwersi sy'n cael eu haddysgu gan arbenigwyr?

Ochr yn ochr â'r awgrymiadau hyn, dylai Estyn gyhoeddi enghreifftiau o fodelau trawsgwricwlaidd cryf er mwyn arwain ysgolion i weithredu dulliau integredig yn effeithiol. Ar lefel llywodraethu, dylai corff llywodraethu pob ysgol gyhoeddi 'Datganiad Hawl CGM' blynyddol sy'n nodi'r dyraniad amser, y model cyflwyno, y

staffio a'r trefniadau ar gyfer Blynyddoedd 10 ac 11. Byddai hyn yn gwneud y ddarpariaeth yn dryloyw i rieni, arolygwyr a chynghorau ymgynghorol lleol.

8.4. Darparu canllawiau pontio ar gyfer Blynyddoedd 10 ac 11

Mae dileu'r cwrs TGAU AC byr wedi gadael bwlch sylweddol i ddysgwyr nad ydynt yn dewis y cwrs TGAU llawn. Er mwyn cefnogi ysgolion yn ystod y broses bontio hon, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi enghreifftiau darluniadol o ddarpariaeth CGM o ansawdd uchel ar gyfer Blynyddoedd 10 ac 11. Ni fyddai'r enghreifftiau hyn yn rhagnodi cynnwys nac yn gweithredu fel cynlluniau gwaith parod; yn hytrach, byddent yn dangos beth yw union natur ymarfer effeithiol yn unol ag ysbryd y Cwricwlwm i Gymru.

Er enghraifft, gallai enghreifftiau ddangos sut y gallai ysgolion bennu strwythur sy'n seiliedig ar ddau faes eang y flwyddyn – megis *Moeseg a Chymdeithas* a *Bydolygon yng Nghymru a'r Byd* – gyda chwestiynau ymholi awgrymedig, camau cynnydd dangosol, ac enghreifftiau o dasgau asesu. Y pwrpas yw dwyn sylw at union natur cydlyniad, dyfnder a chynnydd yn ymarferol, gan roi rhyddid i ysgolion gynllunio eu fersiynau lleol eu hunain hefyd.

Gellid annog canolfannau na allant gynnig cwrs TGAU AC llawn ar raddfa eang i ddefnyddio prosiectau ymholi sy'n cyd-fynd ag ethos elfen asesu newydd y cwrs TGAU di-arholiad. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod hyd yn oed ddysgwyr nad ydynt yn dilyn y cwrs TGAU yn datblygu cymwyseddau lefel uchel mewn rhesymu beirniadol, dadansoddi bydolygon, a dadleuon strwythuredig – sgiliau a werthfawrogir mewn cymwysterau ffurfiol.

8.5. Cynnal arbenigedd pwnc

Ni fydd yr un hawl yn llwyddo heb weithwyr proffesiynol medrus. Dylai Llywodraeth Cymru ariannu dysgu proffesiynol rhanbarthol drwy gyrff megis CCYSAGC, Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol (NAPfRVE), a Chanolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol Cymru, Prifysgol Bangor. Dylai hyfforddiant ganolbwyntio ar ddulliau addysgu disgyblaethol, ymdrin â materion sensitif neu ddadleuol yn hyderus, ac asesu dadleuon ac ysgrifennu drwy werthuso.

Nododd adroddiad 2024 Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol Cymru ddyraniadau amser amrywiol a gweithredu anghyson ledled Cymru. Gall dysgu

proffesiynol liniaru'r gwendidau hyn, ond dim ond os yw'n cael ei gefnogi gan fframwaith clir ar gyfer hawliau sy'n gwarantu digon o le i CGM yn y cwricwlwm.

8.6. Egluro cyfathrebu cenedlaethol

Yn olaf, mae cyfathrebu â'r cyhoedd yn hanfodol. Mae angen i rieni a gofalwyr ddeall beth mae 'gorfodol' yn ei olygu mewn gwirionedd. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi taflen heb jargon i rieni neu ofalwyr yn datgan: mae CGM yn orfodol; mae hawl eich plentyn yn X awr y flwyddyn; a dyma'r hyn y byddant yn ei ddysgu. Dylai Llywodraeth Cymru ddiweddaru tudalennau Hwb hefyd gyda *Chwestiynau Cyffredin ar Hawliau a Chyflwyno,* gan roi sylw i'r isafswm amser, gofynion integreiddio, a'r disgwyliadau ar gyfer Blynyddoedd 10 ac 11.

Byddai'r camau hyn yn gwneud hawl yn weladwy nid yn unig i ysgolion ac arolygwyr ond i ddysgwyr a'u teuluoedd hefyd, gan atgyfnerthu ymddiriedaeth yn y system.

9. Mynd i'r Afael â Gwrthwynebiadau: Ymreolaeth, Integreiddio, ac Atebolrwydd

Ar ôl amlinellu fframwaith arfaethedig ar gyfer sicrhau hawl genedlaethol i CGM, mae'n bwysig mynd i'r afael â gwrthwynebiadau posibl. Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn blaenoriaethu ymreolaeth leol, ac felly mae cryn bryderon ynghylch rhagnodi, integreiddio ac atebolrwydd. Fodd bynnag, fel yr awgryma'r adran flaenorol, mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â diffyg hawl glir – annhegwch, darpariaeth dameidiog a chynnydd wedi'i lastwreiddio – yn golygu bod angen craffu'n ofalus ar y gwrthwynebiadau hyn.

Gwrthwynebiad 1: Mae oriau cenedlaethol yn tanseilio ymreolaeth leol

Mae'r Cwricwlwm i Gymru wedi'i seilio ar yr egwyddor o sybsidiaredd – y gred mai'r ysgolion sydd yn y sefyllfa orau i ddylunio eu cwricwla eu hunain mewn ymateb i anghenion lleol. O'r safbwynt hwn, gallai rhagnodi isafswm oriau ar gyfer CGM ymddangos fel brad o athroniaeth y diwygiad, gan lusgo ysgolion yn ôl tuag at fodel mwy canolog.

Er bod y pryder hwn yn adlewyrchu egwyddor bwysig, mae'n rhagdybio cyferbyniad camarweiniol rhwng hawl genedlaethol ac ymreolaeth leol. Nid oes angen i hawl genedlaethol weithredu fel cyfyngiad llym; yn hytrach, mae'n sefydlu lefel sylfaenol o ddarpariaeth na ddylai arferion ostwng yn is na hi. Mae Cymru eisoes yn derbyn y rhesymeg hon mewn meysydd eraill o'r Cwricwlwm i Gymru, lle mae statws gorfodol yn mynd law yn llaw â gwarantau di-syfl.

Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) yn cynnig cymhariaeth ddefnyddiol ac addysgiadol. Fel CGM, mae ACRh wedi'i ailgysyniadu fel maes dysgu gorfodol, a ysgogir gan egwyddorion, ac a gefnogir gan ganllawiau cenedlaethol, ac mae hawl rhieni a gofalwyr i dynnu eu plant o'r addysg honno wedi'i dileu (Hwb, 2022c). Fodd bynnag, yn hollbwysig, mae ACRh wedi'i hategu gan fframwaith cenedlaethol helaeth, canllawiau datblygiadol, a buddsoddiad parhaus mewn dysgu proffesiynol.

Mae CGM yn rhannu'r un statws statudol – mae'n orfodol i bob dysgwr 3–16 oed, heb yr hawl gan rieni i dynnu eu plant o'r gwersi – ond nid yw wedi cael lefel gyfatebol o eglurhad cysyniadol neu ymwreiddio systematig. Nid y ddadl a gyflwynir yma yw y dylai CGM adlewyrchu ACRh, ond bod angen lefel gymaradwy o sylw strategol a chydlyniad addysgegol os yw am wireddu'r pwrpas addysgol a'r dibenion dinesig a fwriadwyd yn y Cwricwlwm i Gymru.

Gwrthwynebiad 2: Gall modelau trawsgwricwlaidd ddarparu llawn cymaint â gwersi ar wahân

Mae cefnogwyr integreiddio yn dadlau y gellir cyfoethogi CGM trwy ei ymwreiddio ar draws y Dyniaethau neu ei gysylltu â phynciau eraill. Gall uned Hanes ar y Diwygiad yn naturiol gynnwys trafodaeth ar rôl gymdeithasol crefydd, gall uned Saesneg ar lenyddiaeth godi dilemâu moesegol sy'n cysylltu â chysyniadau CGM. O'r safbwynt hwn, ymddengys bod pwnc wedi'i amserlennu yn ddiangen.

Mae yna beth teilyngdod i'r ddadl hon mewn theori, ond yn ymarferol, dim ond o dan amodau llym y mae CGM trawsgwricwlaidd yn gweithio. Rhaid i ysgolion fapio ymdriniaeth â chysyniadau CGM ar draws y cwricwlwm, sicrhau uniondeb disgyblaethol fel bod ymagweddau diwinyddol, athronyddol a gwyddonol cymdeithasol yn cael eu haddysgu'n benodol, darparu fframweithiau asesu clir sy'n benodol i CGM, a gwarantu cyfnod cyfatebol o amser y cwricwlwm i'r hyn a fyddai'n cael ei ddarparu trwy wersi ar wahân. Ychydig o ysgolion sy'n cyflawni hyn oll (Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol Cymru, 2024). Mae llawer o fodelau

integredig yn crebachu i fod yn docenistaidd, gyda CGM yn cael ei wanhau i fod yn gyfeiriadau achlysurol neu'n wasanaethau thematig. Nid yw hawl llinell sylfaen genedlaethol yn gwahardd modelau trawsgwricwlaidd; mae'n sicrhau eu bod yn darparu dyfnder a chynnydd gwirioneddol yn hytrach na chydymffurfiaeth rethregol.

Gwrthwynebiad 3: Gall Estyn eisoes farnu a yw'r ddarpariaeth yn ddigonol

Yn aml, cyflwynid arolygiad fel y rhwyd ddiogelwch. Os nad yw ysgolion yn cyflwyno digon o CGM, gall Estyn dynnu sylw at wendidau a mynnu gwelliant. O'r safbwynt hwn, nid oes angen rhagnodi cenedlaethol pellach.

Mae'r rhagdybiaeth hon yn methu â chydnabod bwlch strwythurol. Nid yw fframwaith Estyn wedi'i gynllunio i fesur hawl amser. Gall arolygwyr werthuso cydlyniad ac ehangder cynllun y cwricwlwm, ond nid oes ganddynt feincnod i farnu a yw'r ddarpariaeth CGM yn ddigonol yn ymarferol. Os yw ysgol yn honni bod CGM wedi'i ymwreiddio ym mhob man, bydd arolygu yn troi'n archwiliad o fapiau o'r cwricwlwm a datganiadau polisi yn hytrach na gwiriad dibynadwy o'r hyn y mae dysgwyr yn ei brofi mewn gwirionedd yn yr ystafell ddosbarth. Gall ysgolion sy'n cynnig dim ond llond llaw o oriau y flwyddyn barhau i ymddangos fel pe baent yn cydymffurfio. Byddai hawl ddiffiniedig yn rhoi safon glir i Estyn fesur yn ei herbyn, gan gryfhau arolygu a sicrhau bod dyfarniadau wedi'u gwreiddio ym mhrofiad y dysgwr yn hytrach nag mewn gwaith papur.

Gwrthwynebiad 4: Bydd y TGAU AC newydd yn diogelu'r ddarpariaeth

Wrth gyflwyno'r TGAU AC yn benodol ar gyfer Cymru yn 2025, mae'n bosibl y bydd rhai yn dadlau y bydd y ddarpariaeth yn cael ei diogelu'n naturiol. Bydd ysgolion sy'n cynnig y cwrs llawn yn amserlennu digon o oriau, a gall dysgwyr sy'n dymuno dilyn CGM yn fanwl ddewis y cymhwyster. O'r safbwynt hwn, nid yw dileu'r cwrs byr yn bwysig.

Mae'r farn hon yn tybio y bydd llwybrau cymwysterau yn gwarantu ymdriniaeth, ond mae'r realiti yn fwy cymhleth ac yn camddeall realiti'r broses o ddewis opsiynau ym Mlynyddoedd 10 ac 11. Bydd y cwrs TGAU AC llawn yn sicrhau darpariaeth gref, ond dim ond i'r dysgwyr hynny sy'n ei ddewis. Mae tystiolaeth ddiweddar yn awgrymu na fydd llawer ohonynt (NATRE, 2025). Iddynt hwy, mae hawl yn dibynnu ar CGM di-arholiad, sydd, fel y gwelwyd mewn adrannau cynharach, yn amrywiol

iawn ac yn aml yn cael ei gyflwyno i'r graddau lleiaf posibl. Arferai'r cwrs byr ddarparu gwarant strwythurol y byddai'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymgysylltu ag AG mewn ffordd barhaus ar gyfer Blynyddoedd 10 ac 11. Gadewir gwactod hebddo. Heb hawl warchodedig i'r rhai nad ydynt yn dilyn TGAU AC, gall cyfran fawr o ddysgwyr ym Mlynyddoedd 10 ac 11 dderbyn ymdriniaeth docenistaidd yn unig. Mae hyn yn tanseilio tegwch a statws statudol CGM fel pwnc gorfodol.

9.1. Pam mae'r gwrthwynebiadau hyn yn methu

Yn eu crynswth, mae'r gwrthwynebiadau hyn yn dwyn sylw at ystyriaethau pwysig – parch at ymreolaeth leol, potensial dysgu trawsgwricwlaidd, rôl arolygiadau, a'r addewid o gymwysterau. Ond nid oes yr un ohonynt yn gorbwyso'r achos dinesig, cyfreithiol ac addysgol dros hawl genedlaethol glir. Nid yw ymreolaeth heb degwch yn rhyddid mewn gwirionedd. Glastwreiddio yw integreiddio heb feincnodau. Mae cyfyngiad ar arolygu heb safonau penodedig. Mae cymwysterau heb ymdriniaeth gyffredinol yn gadael llawer ar ôl. Os yw CGM yn wirioneddol orfodol, rhaid mynd i'r afael â'r gwrthwynebiadau hyn nid trwy gamu'n ôl oddi wrth hawl, ond trwy ei chynllunio'n ddoeth.

10. Casgliad: Sicrhau bod Gorfodol yn golygu Gorfodol a Chydlynol

Mae'r erthygl hon wedi datblygu dadansoddiad bwriadol ar lefel systemau ac, fel y cyfryw, nid yw wedi ceisio cynnig archwiliad manwl o sut y mae darpariaeth CGM yn amrywio ar draws sectorau, cyfnodau neu gyd-destunau ieithyddol penodol.

Mae'r Cwricwlwm i Gymru wedi cymryd cam beiddgar ac egwyddorol drwy wneud CGM yn hawl statudol i bob dysgwr 3–16 oed. Mae'r diwygiad hwn yn adlewyrchu ymrwymiad i blwraliaeth, llythrennedd dinesig, a datblygiad dinasyddion moesegol, gwybodus. Ac eto, fel y dengys yr erthygl hon, mae statws gorfodol heb eglurder gweithredol yn annigonol. Mae diffyg hawl genedlaethol ddiffiniedig ar gyfer amser a chyflwyno wedi creu amwyster systemig, gan arwain at ddarpariaeth dameidiog, anghydraddoldeb rhwng dysgwyr, ac erydiad arbenigedd proffesiynol. Gwaethygwyd y gwendidau hyn ym Mlynyddoedd 10–11 trwy ddileu'r cwrs byr TGAU AC, a arferai weithredu fel angor strwythurol ar gyfer amserlennu a chynnydd.

Nid yw'r risgiau yn rhai technegol yn unig. Maent yn ymddangos wrth wraidd dibenion dinesig ac addysgol y cwricwlwm. Heb ymgysylltu parhaus, dilyniannol, ni all dysgwyr ddatblygu llythrennedd bydolygon, rhesymu moesegol, a sgiliau deialog y mae gwydnwch democrataidd yn eu mynnu. Mae darpariaeth docenistaidd yn tanseilio ysbryd y ddeddf a hyder y cyhoedd yn y system.

Mae'r papur hwn wedi dadlau dros becyn cytbwys o ddiwygiadau:

- Hawl genedlaethol i isafswm amser ar draws pob cyfnod, gan gynnwys dyraniad gwarchodedig ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn dilyn TGAU AC.
- Disgwyliadau cyflwyno clir ar gyfer modelau integredig, gan sicrhau uniondeb disgyblaethol a deilliannau y gellir eu hasesu.
- Cryfhau arolygu a thryloywder, gydag Estyn wedi'i baratoi i werthuso'r ddarpariaeth yn erbyn meincnodau penodol.
- Canllawiau darluniadol ar gyfer Blynyddoedd 10–11, sy'n pontio'r bwlch a adawyd gan y cwrs byr ac sy'n cefnogi cynnydd cydlynol.
- Buddsoddiad mewn dysgu proffesiynol a rhwydweithiau pwnc, gan ddiogelu arbenigedd a gallu.
- Cyfathrebu cyhoeddus clir, gan wneud yr hawl yn weladwy i rieni, dysgwyr a chymunedau.

Nid yw'r mesurau hyn yn tanseilio ymreolaeth leol; maent yn darparu'r amddiffyniadau angenrheidiol er mwyn gofalu bod ymreolaeth yn sicrhau tegwch yn hytrach na'i fod yn parhau'r anghysondeb. Maent yn parchu athroniaeth y Cwricwlwm i Gymru wrth fynd i'r afael â'i wendidau mwyaf arwyddocaol.

Os yw darpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg i gyflawni ei addewid statudol a dinesig, rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu'n benderfynol. Bydd unrhyw beth llai yn peryglu troi pwnc gorfodol yn glytwaith o fwriadau da, gan wneud llythrennedd moesegol a bydolygon dysgwyr yn ddibynnol ar ddaearyddiaeth a threfniadaeth amserlennu. Er mwyn rhoi ystyr i'r gair 'gorfodol', mae angen nid yn unig ddyheadau sy'n seiliedig ar egwyddorion ar Gymru, ond hefyd hawl ymarferol – un sy'n glir, yn orfodadwy ac yn deg i bob dysgwr ym mhob ysgol.

Dylai ymchwil yn y dyfodol flaenoriaethu archwiliad agosach o'r ffordd y mae hawl yn cael ei gweithredu mewn gwahanol gyd-destunau ysgol, gan gynnwys lleoliadau cynradd ac uwchradd, darpariaeth cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg,

a sefydliadau â gwedd grefyddol a heb wedd grefyddol, yn ogystal â dadansoddiad hydredol o effaith y gwaith diwygio diweddar o gymwysterau ar Flynyddoedd 10–11.

LLYFRYDDIAETH

Åhs, V., Poulter, S. a Kallioniemi, A. (2019). Preparing for the world of diverse worldviews: parental and school stakeholder views on integrative worldview education in a Finnish context. *British Journal of Religious Education*, 41(1), tt. 78–89.

Barnes, L. P. (2025). Religion, values and ethics: transformational religious education in Wales? *British Journal of Religious Education*, 47(4), tt. 584–96.

Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol Cymru (2024). *Adroddiad ar ddarpariaeth addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg mewn Ysgolion yng Nghymru.* Bangor: Prifysgol Bangor.

CBAC (2025). *TGAU Astudiaethau Crefyddol: Manyleb a Chanllawiau*. Caerdydd: CBAC Ar gael yn: *https://www.cbac.co.uk/media/v00jyxs0/gcse-religious-studies-faqs-e-updated-0605.pdf* (cyrchwyd 10 Ionawr 2026).

CCYSAGC (2025a). *Letter Support for mandatory Religion, Values and Ethics (RVE) in Wales*. Ar gael yn: https://democracy.anglesey.gov.uk/documents/s22470/WASACRE (cyrchwyd 10 Ionawr 2026).

CCYSAGC (2025b). *Meysydd Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol yng Nghymru, (Cwricwla Gwaddol)*. Ar gael yn: *https://wasacre.org.uk/agreed-syllabi-for-religious-education-in-wales* (cyrchwyd 10 Ionawr 2026).

Copley, T. (2008). *Teaching Religion: Sixty Years of Religious Education in England and Wales*. Exeter: University of Exeter Press.

CYSAG Caerdydd (2008). *Religious Education Agreed Syllabus 2008.* Ar gael yn: *https://drive.google.com/file/d/1x-e-GONBZmp9WV_dFhpspH9Wq277Ckb-/view* (cyrchwyd 10 Ionawr 2026).

Donaldson, G. (2015). *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru.* Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf (cyrchwyd 10 Ionawr 2026).

Yr Eglwys yng Nghymru (2025). *Cynllunio eich Cwricwlwm – Dyraniad amser ar gyfer CGM yn ysgolion yr Eglwys yng Nghymru*. Ar gael yn: https://www.churchinwales.org.uk/cy/addysg/canllawiau-ar-grefydd-gwerthoedd-a-moeseg/cynllunio-eich-canllawiau-cwricwlwm/ (cyrchwyd 10 Ionawr 2026).

Estyn (2023). *Arolygu ar gyfer y Dyfodol (2024–2030): Datblygu Fframwaith*. Ar gael yn: Sut rydym yn arolygu – ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion – Medi 2026 (cyrchwyd 10 Ionawr 2026).

Estyn (2025). *Datblygu maes dysgu a phrofiad (MDaPh) y Dyniaethau*. Ar gael yn: https://adroddiad-blynyddol.estyn.llyw.cymru/app/uploads/2025/12/datblygu-maes-dysgu-a-phrofiad-mdaph-y-dyniaethau-2026-02-11.pdf (cyrchwyd 25 Mehefin 2026).

Gamaliia, K., Турчак, Л., Lavrenyuk, O., Penchuk, O. a Lytvynenko, N. (2024). Synergy of design, culture, and innovation in pedagogy: new horizons for education. *Research Journal in Advanced Humanities*, 4(4). Ar gael yn: https://doi.org/10.58256/rjah.v4i4.1131 (cyrchwyd 10 Ionawr 2026).

Hwb (2021). *Cwricwlwm i Gymru: Crynodeb o'r ddeddfwriaeth*. Ar gael yn: *https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/crynodeb-o-r-ddeddfwriaeth/#legislation-summary* (cyrchwyd 10 Ionawr 2026).

Hwb (2022a). *Cynllunio cwricwlwm a'r pedwar diben -- Datblygu gweledigaeth ar gyfer cynllunio cwricwlwm*. Ar gael yn: *https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/datblygu-gweledigaeth-ar-gyfer-cynllunio-cwricwlwm/#curriculum-design-and-the-four-purposes* (cyrchwyd ar 10 Ionawr 2026).

Hwb (2022b). *Y Dyniaethau: Cynllunio eich Cwricwlwm – Canllawiau ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg*. Ar gael yn: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/cynllunio-eich-cwricwlwm/#religion,-values-and-ethics-guidance (cyrchwyd ar 10 Ionawr 2026).

Hwb (2022c). *Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb – Crynodeb o'r Ddeddfwriaeth*. Ar gael yn: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/crynodeb-o-r-ddeddfwriaeth/#relationships-and-sexuality-education (cyrchwyd ar 10 Ionawr 2026).

Hwang, I. (2025). Applying morality as a core competency in general education for students with undeclared majors: directions and possibilities. *Convergence Education Research Institute, Korea National University of Education*, 11(2), tt. 227–49.

Kaufman, E. K., Mitra, S., Anderson, J. C., Coartney, J. a Cash, C. S. (2020). Leading collaborative change in an educational organization. *Journal of Leadership Education*, 19(4), 56–67.

Kivarina, M. A Makarevich, A. B. (2020). Economic research and education in the era of digital economy. *E3S Web of Conferences*, cyf. 164, Erthygl 12006. DOI: 10.1051/e3sconf/202016412006.

Lackner, E. J. (2021). Studying the relation between stakeholder input and higher education policy. *Higher Education Policy*, 35(4), tt. 929–45.

Louden, L. M. (2004). The conscience clause in religious education and collective worship: conscientious objection or curriculum choice? *British Journal of Religious Education*, 26(3), tt. 273–84.

Lovat, T., Clement, N., Dally, K. a Toomey, R. (2010). Values Education as Holistic Development for All Sectors: Researching for Effective Pedagogy. *Oxford Review of Education* 36(6), tt. 713–29.

Llywodraeth Cymru. (2019). *Our national mission: A transformational curriculum. Proposals for a new legislative framework*. Ar gael yn: https://www.gov.wales/our-national-mission-transformational-curriculum (cyrchwyd 12 Hydref 2026).

Llywodraeth Cymru (2021). *Dogfen Ymgynghori: Canllawiau Cwricwlwm i Gymru Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM)*. Ar gael yn: *https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-05/dogfen-ymgynghori-canllawiau-cwricwlwm-i-gymru-crefydd-gwerthoedd-a-moeseg_1.pdf* (cyrchwyd 10 Ionawr 2026).

Maton, K. (2014). *Knowledge and Knowers: Towards a Realist Sociology of Education*. London: Routledge.

NATRE (2025). *GCSE Religious Studies 2025 – National Report for England and Wales*. Ar gael yn: https://natre.org.uk/news/gcse-religious-studies-2025-national-report-for-england-and-wales (cyrchwyd 10 Ionawr 2026).

Newmann, F. M., Smith, B., Allensworth, E., a Bryk, A. S. (2001). Instructional program coherence: what it is and why it should guide school improvement policy. *Educational Evaluation and Policy Analysis*, 23(4), tt. 297–321.

OECD (2021). *Adapting Curriculum to Bridge Equity Gaps*. Ar gael yn: https://www.oecd.org/en/publications/adapting-curriculum-to-bridge-equity-gaps_6b49e118-en.html (cyrchwyd 10 Ionawr 2026).

Ofsted (2024). *Deep and meaningful? The religious education subject report*. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/subject-report-series-religious-education/deep-and-meaningful-the-religious-education-subject-report (cyrchwyd 10 Ionawr 2026).

O'Prey. L a Usher. S. (2020). *Curriculum for Wales: Religion, Values and Ethics Consultation Analysis,* Wavehill: Social and Economic Research. Ar gael yn: https://www.gov.wales/sites/default/files/consultations/2020-10/consultation-analysis-report-rve.pdf (cyrchwyd 10 Ionawr 2026).

Osborne, M. a Barker, H. (2010). Local teacher-based curriculum development. *International Encyclopaedia of Education*, wedi'i olygu gan B. McGaw, E. Baker a P. Peterson. Oxford: Elsevier, tt. 283–6.

Priestley, M., Biesta, G. a Robinson, S. (2015). *Teacher Agency: An Ecological Approach*. London: Bloomsbury Academic.

Sandberg, R. (2022). *Responses to Consultations on New GCSEs*. Ar gael yn: https://sandbergrlaw.wordpress.com/2022/12/13/responses-to-consultations-on-new-gcses (cyrchwyd 10 Ionawr 2026).

Shaw, M. (2022). Worldview literacy as intercultural citizenship education: a framework for critical, reflexive engagement in plural democracy. *Education, Citizenship and Social Justice* 18(2), tt. 197–213.

Wareham, R. J. (2022). Achieving pluralism? A critical analysis of the inclusion of non-religious worldviews in RE policy in England and Wales after R (Fox) v Secretary of State for Education. *British Journal of Religious Education*, 44(4), tt. 455–71.

WISERD, 2022). *'Dyfodol llwyddiannus' i bawb yng Nghymru? Heriau diwygio'r cwricwlwm ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldebau addysgol*. Ar gael yn: https://wiserd.ac.uk/publication/successful-futures-for-all-in-wales-the-challenges-of-curriculum-reform-for-addressing-educational-inequalities/ (cyrchwyd 10 Ionawr 2025).

Williams, H. G. (1990). Longueville Jones and Welsh education: The neglected case of a Victorian H. M. I. *Cylchgrawn Hanes Cymru/Welsh History Review*, 15(1), t. 416. Ar gael yn: https://bangor.idm.oclc.org/login?qurl=https%3A%2F%2Fwww.proquest.

com%2Fscholarly-journals%2Flongueville-jones-welsh-education-neglected-case%2Fdocview%2F1310493186%2Fse-2%3Faccountid%3D14874 (cyrchwyd 10 Ionawr 2026).

Young, M. (2008). *Bringing knowledge back in: From social constructivism to social realism in the sociology of education*. London: Routledge.

Young, M., Lambert, D., Roberts, C. a Roberts, M. (2014). *Knowledge and the Future School: Curriculum and Social Justice*. London: Bloomsbury Academic.

Zrudlo, I. (2022). A transitional conception of modernity for education. *Educational Theory*, 72(1), tt. 5–25.